



Cyfrifon Banc Cymunedol

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cymunedol angen cyfrif banc yn enw'r grŵp/mudiad. Mae'n bwysig cadw golwg ar gyllid eich grŵp a sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar wahân i rai unigolion. Ar ben hynny, mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc os ydych chi'n bwriadu derbyn rhoddion neu ffioedd ac i wneud cais am gyllid/grantiau.

Sut i Agor Cyfrif Banc Cymunedol

Nid yw agor cyfrif banc ar gyfer eich grŵp cymunedol bob amser yn hawdd a gall gymryd hyd at ychydig fisoedd i sefydlu. Cyn i chi ddechrau eich cais, sicrhewch eich bod yn gwirio:

- Mae'r cyfrif yr ydych yn gwneud cais amdano yn benodol ar gyfer grwpiau cymunedol neu elusennau. Sylwch y gall banciau gyfeirio at grwpiau cymunedol fel 'clybiau a chymdeithasau'. Efallai y gwelwch fod rhai banciau yn cynnig cyfrifon i elusennau cofrestredig yn unig.
- Nid ydych yn gwneud cais am gyfrif banc busnes gan y bydd y rhan fwyaf o fanciau yn codi ffioedd am gyfrifon busnes. Gall cyfrifon cymunedol gael eu rhestru ar wefan y banc o dan yr adran fusnes, felly sicrhewch eich bod yn dewis cyfrif cymuned neu glwb a chymdeithas ac nid cyfrif busnes.
- Mae'r banc yr ydych yn gwneud cais iddo yn cynnig bancio am ddim fel na fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd na thaliadau. Sylwch ei bod yn debygol y codir tâl arnoch o hyd am bethau fel mynd i orddrafft, stopio sieciau, gofyn am ddatganiadau ychwanegol ac ati.

I agor cyfrif banc cymunedol/clybiau a chymdeithasau, gofynnir i chi ddarparu prawf bod eich grŵp yn sefydliad gwirfoddol, dielw ac nad yw'n fusnes preifat. Gallech roi'r dogfennau canlynol iddynt:

- Copi o Gyfansoddiad eich grŵp
- Cadarnhad Cofrestriad Elusen / Gweithred Ymddiriedolaeth (os yw'r grŵp yn elusen)
- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu (os yw'r grŵp yn gwmni cyfyngedig)

Sylwch y gallai rhai banciau ofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth am eich grŵp; gall hyn gynnwys cofnodion y cyfarfod lle penderfynwyd ar y dewis o fanc/cyfrif banc.

Sicrhewch eich bod yn sefydlu'ch cyfrif fel bod angen o leiaf 2 berson i lofnodi pob sic neu gymeradwyo codi arian neu drafodion bancio ar-lein. Mae'n arfer da cael o leiaf 3 o bobl yn llofnodwyr a enwir ar y cyfrif fel y gall unrhyw 2 o'r 3 wedyn lofnodi sieciau/cymeradwyo trafodion.

Bydd y banc yn gofyn am fanylion personol yr holl lofnodwyr, gan gynnwys dyddiad geni a chyfeiriadau cartref am y 3 blynedd diwethaf. Oni bai bod ganddynt gyfrif gyda'r banc yn barod, yna fel arfer bydd angen iddynt ddarparu prawf adnabod (ee trwydded yrru, pasbort) a phrawf o gyfeiriad (ee, bil cyfleustodau). Efallai y gofynnir hefyd i ymgeiswyr newydd ddarparu ychydig fisoedd o gyfriflenni banc personol neu brawf o'u sefyllfa ariannol.

Ffurflen Preswyllo Treth

Mae rhai banciau bellach yn gofyn i sefydliadau lenwi ffurflenni mewn perthynas â phreswyliaeth treth. Mae dolen ddefnyddiol ar sut i lenwi'r ffurflen hon [yma](#)

Cyfrifon banc ar gyfer grwpiau cymunedol

Isod mae rhai cyfrifon banc sydd ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol. Bwriedir hwn fel cyflwyniad i'ch rhoi ar ben ffordd. Nid yw'n rhestr gyflawn, ac nid ydym yn argymhell y rhain dros unrhyw rai eraill. Gall banciau a chymdeithasau adeiladu hefyd benderfynu rhoi'r gorau i gynnig cyfrifon cymunedol felly gwiriwch gyda'r banc/cymdeithas adeiladu yn gyntaf. Mae'r cyfrifon hyn i gyd ar gael i grwpiau cymunedol ac elusennau sydd heb eu cofrestru.

Nid oes yn rhaid i chi o reidrwydd ystyried banc prif ffrwd sydd â changhennau lleol, mae opsiynau ar gyfer banciau ar-lein ac efallai na fyddwch yn sylweddoli y byddai cyfrif undeb credyd neu gyfrif swyddfa bost hefyd yn addas ac y gallai fod yn haws i chi gael mynediad ato.

Cyfrif Cymunedol Natwest

- Ymgeisiwch **ar-lein**
- Rhaid i o leiaf un o'r llofnodwyr fod yn gwsmer Natwest presennol.
- Gallwch reoli'r cyfrif dros y cownter yng nghanghennau Natwest, dros y ffôn, ar-lein neu ar ap bancio symudol.
- Darperir llyfr sic, llyfr talu i mewn a cherdyn debyd.
- Bancio am ddim i sefydliadau sydd ag incwm o dan £100,000 y flwyddyn

Cyfrif Trysorydd Banc Lloyds

- Ymgeisiwch **ar-lein** os ydych yn glwb bach neu'n gymdeithas anghorfforedig
- Os ydych yn elusen gofrestredig, yn ymddiriedolaeth elusennol neu ddewisol, yn gwmni cyfyngedig sy'n elusen gofrestredig, yn gyngor plwyf neu'n awdurdod lleol, ffoniwch 0800 056 0056 i wneud cais.
- Gallwch reoli'r cyfrif yng nghanghennau Banc Lloyds, ar-lein neu dros y ffôn.
- Darperir llyfr sic, llyfr talu i mewn a cherdyn debyd.
- System awdurdodi deuol ar-lein
- Bancio am ddim i sefydliadau sydd ag incwm o dan £50,000 y flwyddyn.

Cyfrif Cymunedol Royal Bank of Scotland

- Ymgeisiwch **ar-lein**
- Rhaid i o leiaf un o'r llofnodwyr fod yn gwsmer RBS presennol.
- Gallwch reoli'r cyfrif dros y cownter yng nghanghennau Natwest, dros y ffôn, ar-lein neu ar ap bancio symudol.
- Darperir cerdyn debyd, llyfr sic a llyfr talu i mewn.
- Bancio am ddim i grwpiau gydag incwm o dan £100,000 y flwyddyn.

Cyfrif Trysorydd Bank of Scotland

- Yn benodol ar gyfer sefydliadau dielw sydd ag incwm o dan £50,000 y flwyddyn.
- Ymgeisiwch **ar-lein** os ydych yn glwb bach neu'n gymdeithas anghorfforedig. Mae'r cais yn cymryd hyd at 4 wythnos.
- Os ydych yn elusen gofrestredig, yn ymddiriedolaeth elusennol neu ddewisol, yn gwmni cyfyngedig sy'n elusen gofrestredig, yn gyngor plwyf neu'n awdurdod lleol, ffoniwch 0345 606 0286 i wneud cais.
- Gallwch reoli'r cyfrif yng nghanghennau Swyddfa'r Post dros y ffôn ac ar-lein.
- Darperir cerdyn debyd, llyfr sic a llyfr talu i mewn.
- Bancio am ddim.

Cyfrif Cyfredol Trysorydd Santander

- Ar hyn o bryd dim ond yn derbyn ceisiadau gan gwsmeriaid presennol.
- Yn benodol ar gyfer sefydliadau dielw sydd ag incwm o dan £250,000 y flwyddyn.
- Gwnewch gais drwy ffonio 0330 678 2509 a byddant yn trefnu i reolwr busnes gysylltu â chi a chwblhau cais
- Gallwch reoli'r cyfrif yng nghanghennau Swyddfa'r Post, dros y ffôn, ar-lein ac ar ap symudol.
- Darperir cerdyn debyd, llyfr sic a llyfr talu i mewn.
- Bancio am ddim.

Undebau Credyd

- Ewch i'ch undeb credyd/banc cymunedol lleol i drafod agor cyfrif cymunedol. Mae'r undebau credyd/banciau cymunedol sy'n gwasanaethu ardal Cronfa CBC Pen y Cymoedd yn cynnwys:
 - [Dragonsavers, Treorci](#)
 - [Undeb Credyd Celtic, Castell-nedd](#)
 - [Banc Cymunedol Smart Money Cymru, Caerffili](#)
 - [Undeb Credyd Bwrdeistref Merthyr Tudful](#)